OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 1706

## Gorchymyn Tai (Gorchmynion Rheoli Dros Dro) ( Amgylchiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2006

**Amgylchiadau rhagnodedig ar gyfer awdurdodi gorchmynion rheoli dros dro y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddynt**

**2.**—(1) Mae'r amgylchiadau a ganlyn yn amgylchiadau a ragnodwyd at ddibenion adran 103(**1**) o'r Ddeddf—

(a) bod yr ardal y mae'r tŷ wedi ei leoli ynddi yn profi problem sylweddol a chyson sy'n cael ei hachosi gan ymddygiad gwrth-gymdeithasol(**3**);

(b) y gellir priodoli'r broblem honno, yn gyfangwbl neu'n rhannol, i un sy'n meddiannu'r tŷ;

(c) bod landlord y tŷ yn landlord yn y sector breifat;

(ch) bod landlord y tŷ yn methu â chymryd camau i wrthsefyll y broblem honno y byddai'n briodol i landlord eu cymryd; a

(d) bydd gwneud gorchymyn rheoli dros dro, pan gyfunir ef â mesurau eraill a gymerir yn yr ardal gan yr awdurdod tai lleol, neu gan bersonau eraill ynghyd â'r awdurdod tai lleol, yn arwain at leihad yn y broblem honno neu at ei dileu.

(2) Yn yr erthygl hon nid yw "landlord yn y sector breifat" yn cynnwys landlord cymdeithasol cofrestredig yn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Tai 1996(**2**)

(**1**) Am ystyr "*anti-social behaviour*" (ymddygiad gwrth-gymdeithasol) *gweler* adran 57(5) o'r Ddeddf.
(**2**) 1996 p. 52.